# CYNGOR CYMUNED BUAN

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor, gynhaliwyd nos Iau, 13 Ebrill, 2023
Yn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy

Presennol:

Cynghorwyr:

Catherine Hughes
Tesni Jones
Einir Lewis
Gareth Roberts
Phil Roberts
Dafydd Ll. Williams
Hughie Williams

Nerys Williams - Clerc

## 1. Ymddiheuriadau –

Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2. Cofnodion cyfarfod 09 Mawrth, 2023

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cynghorydd Hughie Williams (Cadeirydd). Cadarnhawyd Cofnodion 09 Mawrth, 2023 yn gywir gan y Cynghorydd Tesni W. Jones ac fe eiliwyd gan y Cynghorydd Einir Lewis.

## 3. Materion yn codi o'r cofnodion:-

***Arwydd Plant yn Chwarae*** – Adran Draffig am osod arwydd ychwanegol ger Cae Chwarae Rhydyclafdy.

## 4. **Materion Cynllunio**

**Cais Cynllunio C23/0211/33/LL** – Capel Bodfean, Boduan, Pwllheli, LL53 8TY - Cais llawn i newid defnydd capel yn lety gwyliau (llety gwasanaethol) (ail gyflwyniad).

Derbyniwyd llythyr gan gymdogion y Capel a phenderfynwyd anfon copi o'r llythyr i sylw'r Adran Gynllunio gan ddatgan ein pryderon ynglŷn â'r pwyntiau a godwyd.

**Cais Cynllunio C23/0295/33/DT** – Tŷ Ni, Ceidio, LL53 8YL – Estyniad i dŷ annedd ar gyfer person anabl.

Trafodwyd y cais a phenderfynwyd CEFNOGI.

5. **Unrhyw un yn datgan diddordeb**

Y Cynghorydd Sirol Anwen Davies yn datgan diddordeb – ac fe adawodd yr ystafell tra roedd y Cynghorwyr yn trafod y cais.

6. **Ymatebion i ohebiaeth**

Derbyniwyd e-bost gan Ysgrifenyddes Pennaeth Adran Priffyrdd. Peirianneg a YGC yn gwahodd hyd at 4 Cynghorydd i fynychu agoriad swyddogol Pont Newydd Bodfel ar y 3ydd o Fai, 2023.

Cytunodd y Cynghorydd Einir Lewis, y Cynghorydd Gareth Roberts a'r Cynghorydd Phil Roberts fynychu'r digwyddiad.

## 7. Materion Ariannol

Cysoniad banc o 4 Mawrth, 2023 i 3 Ebrill, 2023 wedi ei chael yn gywir yn y swm o £7079.26.

Adroddwyd bod £5090.62 wedi ei dderbyn gan Lightsource (Fferm Solar Nefyn) a £100 gan Lord Newborough tuag ag gynnal a chadw Mynwent Eglwys Boduan.

*Cafwyd ceisiadau ariannol gan y canlynol*:-

Cantorion Llŷn
Ysgol Hafod Lon (i brynu beic arbennig i blant oed cynradd)
Clwb Ffermwyr Ifanc Godre'r Eifl
Cymorth Canser Macmillan yng Ngwynedd.

Penderfynwyd cyfrannu £100 i Gantorion Llŷn a £250 i Ysgol Hafod Lon, Clwb Ffermwyr Ifanc Godre'r Eifl a Cymorth Canser Macmillan yng Ngwynedd.

'Roedd yn awr yn amser i dalu yr ail hanner o'r gwobr ar gyfer cystadleuaeth y côr a addawyd i Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd 2023 sef y swm o £500. (£500 wedi cael ei dalu Ebrill 2022)

Cafodd y sieciau isod eu harwyddo gan y Cynghorwyr Tesni Jones a Catherine Hughes ar ddiwedd y cyfarfod;-

| | | |
|---|---|---|
| Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd | £500.00 | Siec Rhif 200716 |
| Nerys Williams (Mis 1) | £111.99 | Siec Rhif 200717 |
| Cantorion Llŷn | £100.00 | Siec Rhif 200718 |
| Ysgol Hafod Lon | £250.00 | Siec Rhif 200719 |
| Clwb Ffermwyr Ifanc Godre'r Eifl | £250.00 | Siec Rhif 200720 |
| Cymorth Canser Macmillan yng Ngwynedd | £250.00 | Siec Rhif 200721 |
| Bartle St. Tudwals (Twnti) | £20.00 | Siec Rhif 200722 |

**9. Unrhyw fater arall**

**Cae Chwarae Rhydyclafdy –** Er gwybodaeth adroddodd y Cynghorydd Catherine Hughes bod rhai o rieni ifanc yr ardal yn bwriadu codi pwyllgor i drafod y mater o gael Cae Chwarae i'r plant. Cyngor Buan yn eu cefnogi o ran egwyddor ond eu bod hwy fel pwyllgor rhieni yn gyfrifol am yr ymgyrch o gasglu arian tuag at y fenter.

***Materion Priffyrdd*** -

Cafwyd pryderon bod llinellau gwyn o Foduan i Fryn Cynan wir angen eu paentio. Hefyd arwydd 'BODUAN' yn ddifrifol o fler a bod angen un newydd neu eu paentio / golchi cyn y bydd yr Eisteddfod yn cael ei chynnal.

Trafodwyd y porth o flaen Eglwys Boduan a phenderfynwyd gofyn i Mr. Arnott Jones dacluso o'i gwmpas a chwistrellu chwyn laddwr ar y wal o'r porth rownd i'r fynedfa sydd yn wynebu'r ffordd fawr. Y Cynghorydd Hughie Williams am gysylltu â Mr. Jones.

Angen hefyd i roi sylw i ben Lôn Cefn Mine sydd yn dod allan i'r A497 ger Bodfel Bach gan ei bod bron yn amhosibl gweld tuag at Efailnewydd ac mae pryder y bydd damwain yn digwydd gan bod gor-yrru difrifol yn digwydd. Mae'n bur debyg y bydd hynny yn waeth pan agorir y bont newydd. Gofyn a oes posib i rhywun o'r Adran Briffyrdd gael golwg ar y groesffordd a thorri y coed a chlirio fel ei bod yn haws dod i'r lôn.

Trafodwyd hefyd bod ceir yn parcio yn anghyfreithlon ger tai Tanyfron a bod pryder y bydd damwain yn siŵr o ddigwydd os na fydd posib eu stopio i barcio yno. Edrych i mewn os oes na rhywbeth fedar Cyngor Gwynedd ei wneud i atal y parcio hyn.

12. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf -

Nos Iau, 11, Mai 2023 am 7.30 p.m. yn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy. Bydd hwn yn Gyfarfod Blynyddol.